Ffatri Wlan Gwytherin, a'i gweithwyr.

Ar y cychwyn, 'roedd y ffatri wlan o dan yr un to a'r felin yd ym mhen isa'r plwf. Gelwid hon "Y Felin Isa" am ei bod ryw ddwy filltir i lawr yr afon Cledwen o bentref Gwytherin a'r Felin Ucha. Roedd adeilad y Felin Isa, gyda'r dyddiad 1640 wedi ei gerfio ar bren a oedd uwchben y drws, yn llawer fwy diweddar na'r Felin Ucha. Ym mhen ucha'r felin oedd gweithgareddau'r ffatri wlan yn cymeryd lle, tra roedd bwthyn bach ar gyfer y ffatrwr, fel y gelwid o ar lafar, ynghlwm ym mhen isa'r adeilad. Credir bod pobl yn byw ynddo o'r 1600au hyd at y 1840au. Yn talu'r dreth ar y ffatri, y felin wlan a'r y ty bach cegin a siambar yma yn 1832 roedd Jacob Jones, a'r un fath yn1838 pryd roedd "Annual Value" o £3 ar y ty, £8 ar y felin a £3 ar y ffactori wlan, a'r dreth yn swllt yn y bunt. Dywed Map y Degwm o tua 1942: "Mill tenement owned by John and Jacob Jones, joint proprietors, occupier John Jones." Roedd y tiroedd a oedd yn cydfynd a'r adeiladau yn dod i "7 acres, 1 rood, and 27 perches" ac roedd 14 swllt o ddegwm i dalu i'r rheithior.

Erbyn 1841 roedd Jacob ag Anne Jones yn byw yn Nhy'r Felin, tra roedd Morris ag Elizabeth Owen a'u plant yn Ty Isa'r Felin. Disgrifir Morris Owen fel gwneuthurwr gwlan, 30 oed. Roedd y plant Jane yn 7 oed, Thomas yn 5 a Sarah yn un oed. Dengys cyfrifon 1851 William Owen, 24 oed ac yn enedigol o Benmachno, yn wneuthurwr gwlan ac yn byw yn Nhy'r Ffatri. Gydag ef mae ei wraig Margaret a aned yn Llanrwst a'u merch fach Elizabeth, un oed. Mae cofnod ddiddorol yng nhofrestri'r eglwys ar 4-7-1849, sef priodas John Jervis, gwr gweddw o'r Ffatri a Jane Williams, Cornwal Bach. Nodir swyddau John Jervis a'i dad Richard Jervis ill dau fel "carder". Eu gwaith felly oedd cribo gwlan er mwyn cael gwared o unryw beth nad oedd i fod ynddo, e.e. unryw dyfiant planhigol. Yn y dyddiau cynnar roedd y teclun ar gyfer gwneud hyn yn cael ei wneud trwy osod gwifrau wedi eu plygu mewn darn o ledr tew, ac yna hoelio hwn i ddarn o bren hirsgwar gyda dolen arno. Yn ddiweddarach disodlwyd y cribau llaw gan beiriannau.

John Jones oedd y gwneuthurwr gwlan nesaf i fyw yma. Ganed ef tua 1845 yn y Bala. Mae hanes amdanno yn 1868, tra yn gweithio yn Ffatri Wlan Padog ger Ysbytty Ifan, yn tanysgrifio i'r llyfr "Murmuren" gan Gwilym Cowlyd. Roedd John Jones ei hun yn barddoni ac yn defnyddio yr enw barddonol, Tegonwy. Ganed ei wraig, Anne yn Betws Gwerfil Goch, ei fab Edward E. Watkin yn Penmachno yn1869, a gweddill y plant sef Jane Elin yn 1870, John Gruffudd yn 1874, a Maggie tua 1875, yng Nhwytherin. Yn byw ac yn gweithio hefo John Jones yn 1871 roedd Robert Roberts, hefyd o'r Bala ac yn wneuthurwr gwlan, David Owen o Gwmpenaner, David Williams o Fochdre a Jane Hughes y forwyn o Wytherin.

Bu farw Edward Watkin yn 7 oed yn 1876 a'i fam Anne Jones yn 1877 yn 32 oed. Ail briododd John Jones a Mary a oedd yn enedigol o Lanefydd a cawsant fab, Thomas Gruffudd, yn 1880 ond bu farw John Jones yn fuan wedyn gan adael Mary i fagu ei mab a'r llysblant.

Dengys cyfrifon 1861 bod gwr ifanc, 24 oed, o'r enw Hugh Hughes, yn "lodger" yn Nhy'n Caeau a oedd heb fod ymhell o'r ffatri lle roedd yn gweithio fel "Factory hand".

Yn ddiweddarach, penderfynwyd godi ffatri wlan newydd. Dyfynaf o erthygl a ysgrifenwyd gan Mr. R. H. Williams, Cwm Bychan, Gwytherin: "Ar y 4ydd Ebrill 1877 roedd hanes yn Baner ac Amserau Cymru am agor ffatri wlan newydd ger y Felin Isa, Gwytherin, yn lle yr hen un a oedd yn y felin. Roedd yn adeilad hardd, dros ugain llath o hyd, gyda phedair o ffenestri mawr ar y llawr isa, pedair ffenest ar y lloft uwchben, a'r un fath yn y cefn. Roedd yr olwyn ddwr yn haearn i gyd ar y talcen, a tho drosti. Roeddent yn dweud nad oedd eisiau ond ychydig o ddwr i'w throi, o ffos y felin uwchben. Tu mewn i'r ffatri, yr oedd yno werthyd yn cyrraedd ar hyd yr adeilad, a phwlis arno i droi'r peiriannau oedd ar y llawr a'r lloft. Roedd yna ystafell fechan ar y talcen, a llofft uwch ei phen a ddefnyddiwyd fel swyddfa. Yn y cwt yr oedd teclun a oedd yn cael ei alw "Y cythraul", a oedd yn troi ar gyflymdra mawr i chwalu y cnyfod gwlan o'i gilydd. Byddai Robert Roberts, y Ffatri, yn dweud fod rhaid cau drws y cwt yn ofalus, rhag ofn iddo ddianc allan!"

Adeiladwyd ty newydd i'r ffatrwr yr un adeg a'r ffatri newydd a dau ddrws yn y ffrynt, y drws ar y dde yn mynd i'r siop lle gwerthwyd cynnyrch y ffatri, e.e. cwiltiau, cyfnasau, gwlanen i wneud dillad, ac edafedd i wau sannau. Byddai y marched, ac hefyd ambell i ddyn, yn brysur yn gweu sannau min nos yn ystod y cyfnod yma. Yn wir, adroddwyd stori ddiddorol gan y Parch. Richard Morris 'nol yn 1916 am ei atgofion cynnar am Gapel Gwytherin. Dywed iddo gyrraedd y capel yn gynnar ryw ddydd Sul a gweld ryw hen wr yn eistedd heb fod ymhell o'r drws yn brysur yn gweu hosan tra'n disgwyl dyfodiad y pregthwr!

Dengys cyfrifon 1891 bod Robert Roberts, gwneuthurwr gwlan, yn hen lanc 55 oed ac yn dal i fyw yn Nhy'r Ffatri hefo'i fam Mary Hughes, 86 oed. Roedd Robert Roberts yn wr uchel ei barch ac yn flaenor yng Nhapel Cae'r Graig, cangen i Gapel Siloh, Gwytherin. Yma hefyd mae John Hughes, 23 oed a di-briod, ac yn gweithio fel gwehydd gwlan. Mae'r tri yma yn enedigol o'r Bala. Yn byw yma hefyd mae Thomas Roberts, nyddwr 17 oed, o Lanfair Talhaearn yn ogystal a'r forwyn Catherin Evans, 18 oed. Bu farw Mary Hughes, Ty'r Ffatri, yn 1894 a chladdwyd ym mynwent Capel Siloh, Gwytherin.

Ar gyfrifon 1901 gwelwn bod Robert Roberts, y pennaeth, dal yma ynghyd a John Hughes a Thomas Roberts a disgrifir nhw fel "Woolen Factory men". Mae Martha Hughes o Fethesda yn cadw ty iddyn' nhw. Dau arall a fu'n gwethio yn y ffatri wlan oedd John Owen Jones ac Evan Griffith Jones.

Daeth amser pan nad oedd cymaint o waith yn y ffatri wlan ac o'r herwydd fe symudodd Robert Roberts, a John a Martha Hughes, i ffatri wlan Tai Lon, Clynnog Fawr, a John Owen Jones i Ty Newydd, Mynytho. Evan Griffith Jones oedd yr olaf i symyd tua 1921-2. Aeth ef a'i wraig a'r mab, Emlyn, i Ddolgellau i gadw siop ddillad. Wed marwolaeth Robert Roberts yng Nhlynnog ym mis Hydref 1917 yn 80 oed, daeth 'nol i Wytherin i'w gladdu gyda'i fam. Ar y bedd mae'r geiriau:

Er Serchog Gof am
Mary Hughes, Factory, Gwytherin.
Yr hon a fu farw Mawrth 1af, 1894
Yn 89 mlwydd oed.

Hefyd
Am ei mab, Robert Roberts,
Factory Clynnog Fawr,
Ac o Factory Gwytherin cyn hynny.
Diacon ffyddlawn, cymydog dyddan,
diwyd a da, a Christion cywir.
Claddwyd Tachwedd 2, 1917,
yn 80 mlwydd oed.

O'm dygwyd i'm hen gym'dogaeth-o Glynnog
I lonydd neullduaeth,
Dygir i'm waredigaeth………
O'r fain gell, lle'r wyf yn gaeth.

(Hywel Tudur)

Perchennog olaf y ffatri oedd John Jones, Eryl y Don, Abergele. Yn y 1930au fe werthwyd y coed a'r llechi, ac yna aeth y peiriannau a'r olwyn ddwr yn scrap.

Heulwen Ann Roberts
Gwytherin
Mehefin 2008